**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Mehefin 24ain 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Presennol: Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Elen H Edwards, Ian W Griffith, Gwydion Jones, Ifor G Edwards, Emlyn Williams, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.
Roedd aelod o'r cyhoedd – Mr Seth Jones yn bresennol.

41.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ifor Edwards a Gwydion Jones gysylltiad ag eitem 6ch) cais cynllunio 0/41799

41.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion y cyfarfod blynyddol 20fed Mai. Cynigiodd Ann Vaughan ac eiliodd Elen Edwards a phleidleisiwyd yn unfrydol i'w cymeradwyo. Yna cafwyd golwg ar gofnodion cyfarfod 10fed Mehefin; cynigiodd Ian Griffith ac eiliodd Ann Vaughan a phleidleisiodd pawb o blaid eu cymeradwyo.

41.3 MATERION YN CODI
41.3.1 TYBIAU BLODAU GLAN COLLEN – cytunodd Cyngor Conwy y byddent yn llenwi'r tri pot blodau o flaen Stad Glan Collen.
41.3.2 HYSBYSFWRDD GWYTHERIN A CHWT YR HERS – mae Kevin Roberts wedi cytuno i wneud y gwaith.
41.3.3 TWRCH MYNWENT LLANGERNYW – roedd y broblem yn parhau. Y Clerc i ofyn eto neu i rhywun arall os oedd anhawster.
41.3.4 LLWYBR 90 GWYTHERIN – y Clerc i ofyn i Mr J Siviour os medrai ein cynorthwyo i gael pont dros yr afon ar y llwybr.
Cyrhaeddodd Cyngh Dilwyn Roberts y cyfarfod.
41.3.5 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – y Clerc i atgoffa Mr Osborne, Cwmni Harlequin adael i ni wybod am unrhyw ddatblygiadau.
41.3.6 TOILEDAU LLANGERNYW – cynhelir cyfarfod o'r panel tendro ar 8fed Gorffennaf. Teimlai'r Cadeirydd nad oedd yn addas iddo fod ar y panel felly Tecwyn Evans fyddai'r enw cyntaf, yna Elen Edwards yna Diane Roberts.
41.3.7 GWASANAETH BWS – derbyniwyd ateb gan Ms Haf Jones, Cyngor Conwy yn esbonio ers diddymiad Cludiant Cymunedol Conwy, bod Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy yn ariannu'r gwasanaeth Dial a Ride (Sir Ddinbych) dros dro ar gyfer defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig, er budd siopa. Mae'r Adran yn aros i gael gwybod gan Llywodraeth Cymru a yw eu cais am gyllid i ddarparu gwasnaneth cludiant cymunedol, wedi seilio yn Llanrwst ac Uwchaled i wasanaethu y dalgylch, yn llwyddiannus. Pwrpas Cludiant Cymunedol yw darparu cludiant ar gyfer y rhai sydd â dim mynediad at wasanaeth cludiant, neu yn methu defnyddio cludiant cyhoeddus (e.e oherwydd anabledd). Ni all gystadlu hefo gwasanaeth cludiant cyhoeddus neu gwmni tacsi. Os oes rhywun yn ffitio'r categori defnyddwyr yma, dylid cysylltu â'r Adran. Nid yw bws ysgol Gwytherin yn cymryd aelodau'r cyhoedd oherwydd mai'r Adran Addysg sy'n ei ariannu ac nid yw'r Adran Cludiant Cyhoeddus yn cyfrannu dim at y gwasanaeth hwn gan nad oes defnydd digonol yn cael ei wneud o'r gwasanaeth gan y cyhoedd i gyfiawnhau'r costau i'w gyfiawnhau na'i gynnal. PENDERFYNWYD i adael i aelodau'r cyhoedd wybod iddynt gysylltu â'r Adran Cludiant os oes problem.

41.3.8 HOLIADUR FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – y Clerc i anfon y sylwadau ymlaen.
41.3.9 PEINTIO ARHOSFAN BWS – roedd Elen Edwards wedi gwneud ymholiadau a PHENDERFYNWYD i'r Clerc anfon llythyr at B&Q Llandudno i ofyn am baent am ddim i'r gymuned ("waste donation"). Os na ddaw llwyddiant o hyn angen gofyn i'r Aelwyd wneud cais am grant gan CVSC.

41.4 FFYRDD – derbyniwyd llythyr o'r Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn gofyn am adborth ar y dull o gysylltu â nhw. PENDERFYNWYD yn unfrydol i anfon y sylwadau canlynol: byddai pennawd gyda'r rhif cyfeirnod yn haws i gyfeirio yn ôl ato; bod yr ateb a gawn yn rhy ben-agored h.y. gwneir gwaith yn y dyfodol agos – byddai'n well dweud y gwneir y gwaith o fewn 3 wythnos; angen sicrhau bod pob cais yn cyrraedd pen y daith – ni chafwyd scip yn Llangernyw er i ni wneud cais am un.

41.5 CEISIADAU CYNLLUNIO

41.5.1 CAIS RHIF 0/41791 Tynnu un goeden onnen yn 8 Fedwen Arian, Llangernyw gan Mrs D Morley – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
41.5.2 CAIS RHIF 0/41789 Addasiadau allanol ac adnewyddu adeilad yn yr ardd i'w ddefnyddio fel ystafell wely ategol yn Cae'r Llo, Llangernyw gan Mrs A Mackeson-Sandbach – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
41.5.3 CAIS RHIF 0/41797 Estyniad i annedd yn Ty'n y Bryn, Llangernyw gan Mr Emlyn Davies – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
41.5.4 CAIS RHIF 0/41799 Cadw mynedfa amaethyddol ddiwygiedig (cais ôl-weithredol) ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH gan Mr Robin Crossley – gadawodd Ifor Edwards a Gwydion Jones y cyfarfod am y pwynt yma. Bu trafodaeth ar y cais a holi beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cais hwn a chais rhif 0/41272 a ddaeth o'n blaenau yn mis Rhagfyr. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais ond gwrthwynebodd Diane M Roberts y cais.
41.5.5 CAIS RHIF 0/41806 Trawsnewid adeilad allanol mewn i 3 uned wyliau gosod (adnewyddu caniatad cynllunio a roddwyd dan gôd rhif 0/36951) yn Bryn yr Aur, Llangernyw gan Mr & Mrs J Bradley – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
41.5.6 CAIS RHIF 0/41819 Dymchwel gweithdy/garej a chodi estyniad i'r annedd yn Bron Haul, Trofarth, Llangernyw gan Mr David Roberts – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

41.6 BWRSARI ER COF AM IAN MACKESON-SANDBACH – derbyniwyd cyngor gan Un Llais Cymru yn mynegi y byddai'n well i sefydliad lled-braich gael ei ffurfio i weinyddu'r gronfa a gwneud y penderfyniadau. Byddai'n addas ac yn iawn i'r sefydliad gynnal panel ar gyfer dewis y bobl ifanc a bod rhai o'r cynghorwyr yn eistedd ar y panel yma. Os byddant yn gwneud hynny ar ran y cyngor bydd rhaid i'r cyngor bleidleisio (pob cyfarfod blynyddol) pa rhai fydd yn cymryd rhan. Er enghraifft, byddai panel o ddau neu dri cynghorydd ac un neu ddau eraill (wedi eu henwebu gan y teulu) yn gwneud panel da ar gyfer y pwrpas yma. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gysylltu â Ms Antoinette Sandbach i ddweud ein bod yn gefnogol iawn o'r syniad o sefydlu Bwrsari ond ein bod wedi derbyn y cyngor uchod a'n bod yn gofidio na fedrwn ei weinyddu. Byddem yn falch o gael cynrychiolaeth ar y panel a hysbysebu'r Bwrsari. Hefyd i wadd Ms Sandbach i'r cyfarfod nesaf i drafod beth fedrwn wneud.

41.7 HYFFORDDIANT RHEOLAETH 30 MEHEFIN – nid oedd yn hwylus i neb fynd ac roedd Diane Roberts wedi mynychu cwrs tebyg o'r blaen.

41.8 GOHEBIAETH – y clerc i anfon rhai eitemau ar ebost i'r aelodau – 'Shale Gas and Hydraulic Fracturing' a 'Strategaeth Hyfforddi Cymru'.

41.9 COFNODI BUDDIANNAU AELODAU – angen rhoi hwn fel eitem ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

41.10 CWRS CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU – cynigiodd Ian W Griffith a Diane M Roberts fynychu'r cwrs yn Venue Cymru, Llandudno ar 21ain Gorffennaf oedd yn gwrs am ddim.

41.11 MATERION LLEOL
41.11.1 Derbyniwyd £40 yn dâl am gerrig o Fynwent Gwytherin.
41.11.2 Angen torri o gwmpas arwyddion – Give Way ger Bryn Coroniad, ger Lead Inn, ger Cefn Isa Llangernyw.
41.11.3 Arwydd ffordd ger Ainon byth wedi ei droi.
41.11.4 Angen glanhau arwydd Ysgol yn Llangernyw.
41.11.5 Allt Capel Cefn Coch angen ei hailwynebu.
41.11.6 Angen bin baw cŵn i bentref Gwytherin.
41.11.7 Dŵr yn bwyta'r tir un ochr ger pont Ddôl Bach.
41.11.8 Wyneb y ffordd rhwng Hafodunos a Cae Llo angen sylw.
41.11.9 Baner clwb peldroed wedi ei gosod ar do Yr Hen Hydd – mewn ardal cadwraeth.
41.11.10 Angen cael arwyddion toiledau ar yr arwyddion twristiaeth a pharcio newydd. Yr Adran Ffyrdd yn mynd i gysylltu â'r Eglwys a'r Hen Hydd.
41.11.11 Aelwyd Bro Cernyw wedi anfon cais newydd am arian o Gronfa Bro Cernyw ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol – PENDERFYNWYD yn unfrydol bod yr Aelwyd yn cael defnyddio'r siec a gawsant yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd at y pwrpas hwn.
41.11.12 Cafwyd gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts am faterion y Sir a dywedodd nad oedd yn gweld ad-drefnu llywodraeth leol yn digwydd yn y dyfodol agos.

41.12 BILIAU

| | |
|---|---|
| W & M Davies Cyf (Gwaith ym Mynwent Gwytherin) | £624.00 |
| D Evans (Trydydd Toriad Mynwentydd a strimio ochr Gwytherin) | £530.00 |
| Hywel Evans (Cylchlythyr) | £6.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 y.h.

*Cymeradwywyd y Cofnodion …D G Davies………………….. Dyddiad …29/7/15……………*

Community Council Meeting was held on Wednesday, June 24th 2015 at 7.30 pm at Gwytherin Community Centre

Present: Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Elen H. Edwards, Ian W Griffith, Gwydion Jones, Ifor G Edwards, Emlyn Williams, Cllr Dilwyn O Roberts and Clerk.
A member of the public - Mr Seth Jones attended.

41.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Ifor Edwards and Gwydion Jones expressed connection with item 6d) planning application 0/41799

41.2 MINUTES - The minutes of the annual meeting 20th May were looked at. Ann Vaughan proposed and Elen Edwards seconded and voted unanimously for approval. Then minutes of June 10 were viewed; Ian Griffith proposed and Ann Vaughan seconded and everyone voted in favour of approval.

41.3 MATTERS ARISING
41.3.1 FLOWER TUBS GLAN COLLEN - Conwy Council agreed that they would fill three flower pots in Glan Collen Estate.
41.3.2 GWYTHERIN NOTICEBOARD AND HEARSE HOUSE - Kevin Roberts has agreed to do the work.
41.3.3 MOLE IN LLANGERNYW CEMETERY - the problem persists. Clerk to ask again or someone else if it was inconvienent.
41.3.4 ROUTE 90 GWYTHERIN - the Clerk to ask Mr J Siviour if he could help us get a bridge on the route.
Cllr Dilwyn Roberts arrived at the meeting.
41.3.5 PENYFRON MAST, GWYTHERIN - the Clerk to remind Mr Osborne, Harlequin to let us know of any developments.
41.3.6 LLANGERNYW TOILETS - tender panel meeting will be held on the 8th July. The Chair felt that it was not suitable for him to be on the panel and therefore Tecwyn Evans would be the first name, then Elen Edwards then Diane Roberts.
41.3.7 BUS SERVICE - received a reply from Ms Haf Jones, Conwy Council explaining since dissolution of Conwy Community Transport, that Conwy Social Services funds the Dial a Ride (Denbighshire) temporarily for Social Services for users only, for shopping. The Department is waiting to be told by the Welsh Government regarding their application for funding to provide community transport, based in Llanrwst and Uwchaled to serve the catchment area. The purpose of Community Transport is to provide transport for those who have no access to transportation service, or is unable to use public transport (eg due to disability). It cannot compete with public transport or a taxi company. If anyone fits the category of users, please contact the Department. The Gwytherin school bus cannot carry members of the public because the Department of Education funds the service and the Department of Public Transport contributes nothing to this service because not enough use is being made of the service from the public to justify the costs. RESOLVED to let the public know that they should contact the Department of Transport if there is a problem.
41.3.8 COMMUNITY AND TOWN COUNCILS FORUM QUESTIONNAIRE - the Clerk to send comments on.
41.3.9 PAINTING BUS STOP - Elen Edwards had made enquiries and RESOLVED that the Clerk sends a letter to Llandudno B & Q to request free paint for the community ("waste donation"). If not successful then to ask Aelwyd Bro Cernyw to apply for grant from CVSC.

41.4 HIGHWAYS - a letter was received from the Department of Environment, Roads and Facilities seeking feedback on the method of contacting the department. RESOLVED unanimously to forward the following comments: a heading with reference number is easier to refer back to it; the answer we get is too open-ended ie work is carried out in the near future - it would be better to say the work is done within 3 weeks; need to ensure that each application is referred to right dept. – no skip turned up in Llangernyw although one was ordered.

41.5 PLANNING APPLICATIONS
41.5.1 APPLICATION NUMBER 0/41791 Removing one ash tree at 8 Silver Birch, Llangernyw by Mrs D Morley - RESOLVED unanimously to support the application.
41.5.2 APPLICATION NUMBER 0/41789 Alterations and renovation of a building in the outer garden for use as an auxiliary bedroom Cae Llo, Llangernyw by Mrs Mackeson-Sandbach - RESOLVED unanimously to support the application.

41.5.3 APPLICATION NUMBER 0/41797 Extension to dwelling at Tyn y Bryn, Llangernyw by Mr Emlyn Davies - RESOLVED unanimously to support the application.

41.5.4 APPLICATION NUMBER 0/41799 Retention revised agricultural access (retrospective application) at land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH by Mr Robin Crossley - Ifor Edwards and Gwydion Jones left the meeting at this point. There was discussion on the application and asking what is the difference between this application and application number 0/41272 which came before us in December. RESOLVED to support the application but Diane M Roberts opposed the application.

41.5.5 APPLICATION NUMBER 0/41806 Conversion of outbuilding into 3 holiday units installed (renewal of planning permission granted under code no 0/36951) in Bryn yr Aur, Llangernyw by Mr & Mrs J Bradley - RESOLVED unanimously to support application.

41.5.6 APPLICATION NUMBER 0/41819 Demolition workshop / garage and extension to dwelling at Bron Haul, Trofarth, Llangernyw by Mr David Roberts - RESOLVED unanimously to support the application.

41.6 BURSARY IN MEMORY OF IAN MACKESON-SANDBACH - received advice from One Voice Wales expressing it would be preferred for an organization be formed to administer the fund and make the decisions. It would be appropriate for the organization to conduct the selection panel for young people and that some of the councilors sit on the panel. If they do so on behalf of the council the council will vote (each annual meeting) which members will take part. For example, a panel of two or three councilors and one or two others (nominated by the family) makes a good panel for this purpose. RESOLVED unanimously to contact Ms. Antoinette Sandbach to say that we are very supportive of the idea of establishing a bursary but we have received the above advice and are concerned that we cannot administer it. We would be pleased to be represented on the panel and advertising the Bursary. Ms Sandbach to be invited to the next meeting to discuss the way forward.

41.7 MANAGEMENT TRAINING JUNE 30 - it was not convenient for anyone to go and Diane Roberts has attended a course like this previously.

41.8 CORRESPONDENCE - the clerk to send an email to members on some items - 'Shale Gas and Hydraulic Fracturing "and" Training Strategy for Wales'.

41.9 RECORDING MEMBERS INTERESTS - this needs to be put as an item on the Agenda of the next meeting.

41.10 PLANNING AID WALES COURSE - Ian W Griffith and Diane M Roberts offered to attend the course at Venue Cymru on July 21st which was free of charge.

41.11 LOCAL ISSUES
41.11.1 Received £ 40 for stones from Gwytherin cemetery.
41.11.2 Hedges need cutting around signs - Give Way near Bryn Coroniad, near Lead Inn, near Cefn Isa Llangernyw.
41.11.3 Road sign near Ainon still hasn’t been turned the right way.
41.11.4 School sign in Llangernyw needs to be cleaned.
41.11.5 Capel Cefn Coch hill needs to be resurfaced.
41.11.6 Need for a dog waste bin in Gwytherin.
41.11.7 Water eroding the land near Ddol Bach bridge.
41.11.8 The road between Cae Llo and Hafodunos needs attention.
41.11.9 Football club flag has been installed on the roof of The Old Stag - in a conservation area.

41.11.10 Need toilet signs on new tourist and parking signs. The Highways Department is going to contact the Church and the Old Stag.

41.11.11 Aelwyd Bro Cernyw has sent a new request for money from the Bro Cernyw Fund for competing at the National Eisteddfod - RESOLVED unanimously that the Aelwyd use the donation they were given for the Urdd Eisteddfod for this purpose.
41.11.12 Cllr. Dilwyn Roberts County referred to Conwy Council issues and said that he didn't see the reorganization of local government in place in the near future.

41.12 BILLS

| | |
|---|---|
| W & M Davies Ltd (Work in Gwytherin Cemetery) | £ 624.00 |
| D Evans (Third Cut to Cemeteries and strimming bank in Gwytherin) | £ 530.00 |
| Hywel Evans (Newletter) | £ 6.00 |

The meeting ended at 9.45 pm

Approved the Minutes …D G Davies…………………… Date ……….29/7/15…………………………….